

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Falmai Pritchard, chwaer i Sioned Williams ac Angharad Roberts (Llanefydd). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu cyfan yn eu galar a'u hiraeth a chyflwynwn hwy oll i ofal a thangnefedd yr Arglwydd.
- Yr ydym yn codi amryw o'r ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Ceinlys Jones (Llansannan); yno hefyd y buodd Bob Lloyd (Llanfair) am rai dyddiau ond sydd erbyn hyn wedi cael ei symud i Ysbyty Llandudno, fel ag y cafodd Gwyneth Rawson (Llanfair). Mae Dilys Vaughan (Saron) yn parhau yn yr Inffirmari, a Gwenllian Jones (Henllan) yn Ysbyty Rhuthun. Cyflwynwn hwy oll, ynghyd ag eraill sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiachau.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Meirion Jones (Henllan) sydd newydd ddatlu pen-blwydd arbennig!

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Gair i'ch atgoffa y bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn eich cyfraniad tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd **HEDDIW**, os gwelwch yn dda. **Nodyn i'r Trysoryddion:** A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled') CYN Ebrill 1af, os gwelwch yn dda?

I ddod

- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli rhwng Ebrill 2il-5ed gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli. Am fwy o fanylion: www.llanw.org
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed-12fed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.wordaliveevent.org
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Fercher, Ebrill 11eg am 7.00 yng nghwmni Elin Bryn Williams. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.
- **KESWICK – LLANDUDNO: WYTHNOS Y BEIBL** 'Overflowing Grace' gyda John Risbridger yn y Lighthouse Community, Ffordd y Gogarth, Llandudno LL30 2EJ (Mai 1af – 4ydd). **Cyfarfod Cymraeg** nos Wener am 7.30 gyda'r Parch. Ddr Rhodri Glyn yn pregethu. Cyfarfodydd eraill bore Mercher, lau a Gwener am 10.30 y bore; a nos Fawrth, Mercher a lau am 7.30 yr hwyr. Gwneir casgliad.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel Bethania, Rhuthun dydd Mercher, Mai 2il. Mwy o fanylion i ddilyn.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 25^{ain} Mawrth 2018

Darlleniad y Dydd

Ioan 12:14-19

(BCND tud.116 / BCN tud.106)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i oedfaon ar draws y Fro heddiw ar Sul y Blodau. Heddiw, o bob diwrnod, pam na rown ni amser i fyfyrto ar Iesu fel Brenin buddugoliaethus? Beth am roi yr amser iddo Fo heddiw a rhoi'r parch mae o'n ei haeddu fel Brenin ar ein calonnau?

Sut mae eich cof chi? Nid sôn am gofio beth gawsoch chi i frecwast, neu beth oedd y tywydd ddydd Mawrth diwethaf ydw i, ond am eich cof tymor hir. Ydych chi'n cofio pethau ddysgoch chi yn yr ysgol? Neu tybed pa mor dda fase chi yn chwarae *Who Wants To Be a Millionaire?* Neu, beth oedd enw'r rhaglen deledu yna efo Cilla Black arni, lle roedd cystadleuwyr yn cael sialens i gofio'r llyfr ffôn?

I ddod at ein darlleniad heddiw, tybed faint ohonom ni oedd yn arfer, neu sy'n dal i ddysgu rhannau o'r Beibl yn gyson? Mae rhoi adnodau ar ein cof yn arferiad sydd braidd wedi mynd allan o ffasiwn yn ddiweddar (os ydy o'n deg dweud mai ffasiwn ydy cofio'r Beibl!). Tybed ydych chi'n berson all ddyfynnu llinellau o Salmu ar ôl cael y linell gyntaf wedi ei rhoi i chi? Neu efallai yn adnabod Salm o'i rhif yn unig! I fynd gam ymhellach, tybed ydy'r rhannau yna o'r Beibl sydd ar eich cof yn rhan o'ch bywyd bob dydd? Hynny ydy, ydych chi'n ffeindio eich hunain mewn sefyllfa anodd, a'ch meddwl yn dod a chi at Salm 23?

Wrth ddarllen trwy'r rhan yma o Ioan, y peth sydd wedi fy nharo i ydy, ymysg y dathlu a'r taflu dail palmwydd a chotiau, mae'r bobl yn cyd-weiddi "*Hosanna! Clod iddo!*" "*Mae'r un sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd wedi'i fendithio'n fawr!*", sef rhan o Salm 118. Maent yn gweld beth sy'n digwydd o'u blaenau, ac mae eu meddyliau yn cael ei arwain yn syth at y Beibl. Oherwydd eu bod yn 'nabod eu Beibl, mae'r dyrfa yn gallu 'nabod fod y ffaith mai Iesu Grist, y dyn sy'n marchoga ar gefn asyn, ydy'r "*Un sy'n cynrychioli'r Arglwydd*". Mae nhw'n cysylltu Salm 118 gyda'r broffwydoliaeth o Sechareia 9 oedd yn cyhoeddi fod Brenin Israel yn mynd i ddod atyn nhw ar gefn asyn.

Roedden nhw'n adnabod fod Arglwyddiaeth Iesu yn mynd i ddod â heddwch i'w bywydau nhw ac i'w gwlad nhw. Roedden nhw'n gweld fod dydd ffafr Duw yn dod ym mherson Iesu Grist ac roedden nhw'n dathlu! Yn gweiddi a moli Duw yn llawen. Tybed ydyn ni'n gweld Iesu fel yna heddiw?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Gwion

Darlleniad Wythnos Nesaf

Mathew 28:1-7 (BCND tud.36 / BCN tud.33)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 25^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.
- Llun – 26^{ain} ➤ **Gwaith Cwrs Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** – Dewch â'ch cyweithiau/traethawd/gwaith crefft i Capel Coffa Henry Rees, Llansannan rhwng 7.00 ac 8.00 yr hwyr heno, os gwelwch yn dda. (Gofynnir yn garedig i chi roi enw eich Ysgol Sul a rhestr o enwau llawn y plant gyda'r cyweithiau.) Os am gyflwyno arddangosfa flodau, gofynnir i chi ddod â'r gosodiad ar y noson wobrwyo yn unig (Mai 11eg) a gadael i Meirwen Hughes (01745 823802), yr ysgrifennydd, wybod ymlaen llaw er mwyn cael rhoi eich enwau yn yr adroddiad.
- Mawrth – 27^{ain} ➤ **Myfyrdod y Pasg** yn Ffestri Capel Henllan am 7.30.
- Mercher – 28^{ain} ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat yn Preswylfa am 7.30.
- **Torri Syched y merched** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- Gwener – 30^{ain} ➤ **Oedfa Bore'r Groglith i'r Fro** – Oedfa gymun yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 10.30.
- Sul nesaf – 1^{af} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 25^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 1^{af} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 25^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Sul nesaf – 1^{af} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 25^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 10.00.
- Sul nesaf – 1^{af} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 25^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 1^{af} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 25^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 30^{ain} ➤ Cynhelir Oedfa'r Groglith yng Nghapel Cefn Berain am 7.00. Pregethir gan Mr Dennis Davies, Llanrwst.
- Sul nesaf – 1^{af} ➤ Cynhelir Gwasanaeth y Pasg yn Llanefydd **am 10.30** gyda phlant a ieuenctid y Capel yn cymryd rhan, a sgwrs gan Sarah Dafydd. Yn ystod y gwasanaeth, gwneir casgliad arbennig at apêl efeillio toiled. Ar ddiwedd y gwasanaeth, bydd paned a chacen i bawb a chyfle i brynu nwyddau o stondin Masnach Deg dan ofal plant yr Ysgol Sul. Byddwn hefyd yn ddiolchgar o dderbyn nwyddau tuag at y Banc Bwyd yn Ninbych.

Manylion Cyswllt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.